YSTADEGAU, DOGFENNU

# Cyfrif carafannau Sipsiwn a Theithwyr: Gorffennaf 2023

Mae'r datganiad hwn yn manylu ar nifer y carafanau, lleiniau a safleoedd ar gyfer poblogaethau Sipsiwn a Theithwyr yn ôl yr awdurdod lleol a'u tueddiadau dros amser.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 15 Tachwedd 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Tachwedd 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


**Pwyntiau allweddol**

**Carafannau yn ôl p’un a awdurdodwyd y safleoedd ai peidio**

**Lleiniau ar safleoedd awdurdodau lleol**

**Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg**

**Manylion cyswllt**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Pwyntiau allweddol

- Ar 20 Gorffennaf 2023, adroddwyd fod 1,128 o garafannau Sipsiwn a Theithwyr a 150 o safleoedd yng Nghymru.
- Rhwng Gorffennaf 2022 ac Gorffennaf 2023, gostyngodd cyfanswm nifer y carafanau Sipsiwn a Theithwyr 3% (38 o garafannau), a syrthiodd cyfanswm nifer y safleoedd 11% (18 o safleoedd).
- Caerdydd, Sir Benfro, Sir y Fflint a Chastell-nedd Port Talbot oedd â'r cyfanswm uchaf o garafannau; gyda'i gilydd roedd y rhain yn cyfrif am 49% o'r holl garafannau.

# Carafannau yn ôl p'un a awdurdodwyd y safleoedd ai peidio

Adeg cyfrif Gorffennaf 2023, cyfanswm nifer y carafannau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru oedd 1,128. Roedd 977 o garafannau ar safleoedd awdurdodedig â chaniatâd cynllunio, gan gyfrif am 87% o'r holl garafannau (i fyny o 78% ym mis Gorffennaf 2022). O'r rhain, roedd 593 (61%) ar safleoedd rhent cymdeithasol a 384 (39%) ar safleoedd a ariennir yn breifat.


Mae Ffigur 1 isod yn dangos dadansoddiad o'r carafannau yn ôl statws awdurdodedig ac anawdurdodedig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 1: Carafannau Sipsiwn a Theithwyr yn ôl math o safle, Gorffennaf 2023




Disgrifiad o Ffigur 1: Siart cylch sy'n dangos canran y carafannau sydd ar safleoedd awdurdodedig (87%), safleoedd anawdurdodedig ar dir sy'n eiddo i Sipsiwn (7%) a safleoedd anawdurdodedig ar dir nad yw'n eiddo i Sipsiwn (6%).

Ffynhonnell: Cyfrif Carafannau Cymru Gyfan (Llywodraeth Cymru)

Roedd 80 o garafannau ar safleoedd anawdurdodedig ar dir a oedd yn eiddo i Sipsiwn a Theithwyr, sy'n cyfrif am 7% o'r holl garafannau. Roedd 71 o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

garafannau eraill (6% o'r holl garafannau) ar safleoedd anawdurdodedig ar dir nad oedd yn eiddo i Sipsiwn a Theithwyr, sy’n gyfanswm o 151 o garafannau ar safleoedd anawdurdodedig. Mae hyn yn ostyngiad o 41% yn nifer y carafannau ar safleoedd anawdurdodedig ers mis Gorffennaf 2022, pan oedd 254 o garafannau ar safleoedd anawdurdodedig. Gostyngodd nifer y safleoedd anawdurdodedig o 64 ym mis Gorffennaf 2022 i 39 ym mis Gorffennaf 2023.

Casnewydd oedd â'r nifer uchaf o garafannau ar safleoedd anawdurdodedig (26 o garafannau, yn cyfrif am 17% o’r holl garafannau ar safleoedd anawdurdodedig).

Mewn rhai achosion, mae carafannau ar safleoedd anawdurdodedig ond mae'r Awdurdod Lleol wedi penderfynu peidio â cheisio cael gwared ar y gwersyll. Ym mis Gorffennaf 2023 roedd 91 o garafannau ar safleoedd anawdurdodedig a oddefir. Gwelwyd y nifer fwyaf o'r rhain ym Mro Morgannwg lle'r oedd 18 o garafannau ar safleoedd anawdurdodedig a oddefir. Roedd 60 o garafannau ar safleoedd anawdurdodedig nas goddefir yng Nghymru.

Dengys ffigyrau 2 a 3 isod, yn y drefn honno, nifer y carafannau a’r safleoedd yn ôl p’un a awdurdodwyd y safleoedd ai peidio.


Darperir tablau manwl ar lefel Awdurdodau Lleol yn y daenlen ODS o dan y tab data. Cewch fwy o wybodaeth gefndirol ac am ansawdd yn yr adran Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd. Esbonnir termau sydd ag ystyr arbennig yn yr **eirfa**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 2: Nifer y carafannau Sipswn a Theithwyr yn ôl p’un a awdurdodwyd y safleoedd ai peidio, Ionawr 2018 hyd at Gorffennaf 2023 [Nodyn 1] [Nodyn 2]




Disgrifiad o Ffigur 2: Siart bar pentwr sy’n dangos nifer y carafannau ar safleoedd awdurdodedig ac anawdurdodedig. Ers mis Ionawr 2021, mae nifer y carafannau wedi bod yn gyffredinol uwch ym mis Gorffennaf nag ym mis Ionawr. Roedd nifer y carafannau ar safleoedd awdurdodedig yn uwch ym mis Gorffennaf 2023 a’i gymharu â blynyddoedd diweddar.

Ffynonellau: Cyfrif Carafannau Sipswn a Theithwyr, Cyfrif Carafannau Cymru Gyfan (Llywodraeth Cymru)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

[Nodyn 1] Oherwydd pandemig y Coronafeirws, ni chynhaliwyd cyfrifiad carafannau chwemisol Llywodraeth Cymru yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2020.

[Nodyn 2] O fis Ionawr 2021 ymlaen, defnyddiwyd data ar-lein Cyfrif Carafannau Cymru Gyfan i gynhyrchu cyfrif o garafannau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. O'r herwydd, dylid cymryd gofal wrth fynd ati i ystyried tueddiadau dros amser. Gweler yr adroddiad Ansawdd Data am ragor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 3: Nifer y safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn ôl p’un a awdurdodwyd y safleoedd ai peidio, Ionawr 2011 hyd at Gorffennaf 2023 [Nodyn 1] [Nodyn 2]

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.




Disgrifiad o Ffigur 3: Siart bar wedi'i grwpio sy'n dangos nifer y safleoedd yn ôl p'un a awdurdodwyd hwy ai peidio. Ers mis Ionawr 2011, mae nifer y safleoedd awdurdodedig wedi dangos cynydd cyson. Roedd gostyngiad yn nifer y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

safleoedd anawdurdodedig rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Gorffennaf 2023.

Ffynonellau: Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr, Cyfrif Carafannau Cymru Gyfan (Llywodraeth Cymru)

[Nodyn 1] Oherwydd pandemig y Coronafeirws, ni chynhaliwyd cyfrifiad carafannau chwemisol Llywodraeth Cymru yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2020.

[Nodyn 2] O fis Ionawr 2021 ymlaen, defnyddiwyd data ar-lein Cyfrif Carafannau Cymru Gyfan i gynhyrchu cyfrif o garafannau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. O'r herwydd, dylid cymryd gofal wrth fynd ati i ystyried tueddiadau dros amser. Gweler yr **adroddiad ansawdd data** am ragor o wybodaeth.

## Lleiniau ar safleoedd awdurdodau lleol

Darparwyd 410 o leiniau ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru ar 20 Gorffennaf 2023. O'r rhain, roedd 408 yn lleiniau preswyl ac roedd 2 yn lleiniau tramwy.

Caerdydd, Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot oedd â'r nifer uchaf o leiniau a ddarparwyd gan Awdurdodau Lleol (80, 73 a 67 o leiniau'r un, yn y drefn honno) gan gyfrif am dros hanner cyfanswm nifer y lleiniau (54%). Adroddodd 7 Awdurdod Lleol nad oedd ganddynt unrhyw leiniau ar 20 Gorffennaf 2023. Ar adeg y cyfrif, roedd 97% o'r lleiniau preswyl wedi'u meddiannu.

Mae Tabl 1 yn dangos dadansoddiad dros amser o nifer y lleiniau yng Nghymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Tabl 1: Nifer y lleiniau ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ddarparwyd gan awdurdodau lleol [Nodyn 1] yn ôl statws tramwy / preswyl, Ionawr 2018 hyd at Gorffennaf 2023 [Nodyn 2] [Nodyn 3]

| Dyddiad | Preswyl wedi meddianu | Preswyl yn wag | Dros dro wedi meddianu | Dros dro yn wag |
|---|---|---|---|---|
| **Ionawr 2018** | 391 | 13 | 0 | 2 |
| **Gorffennaf 2018** | 384 | 13 | 2 | 0 |
| **Ionawr 2019** | 391 | 9 | 0 | 2 |
| **Gorffennaf 2019** | 385 | 17 | 2 | 0 |
| **Ionawr 2020** | 389 | 14 | 0 | 2 |
| **Gorffennaf 2020** | [x] | [x] | [x] | [x] |
| **Ionawr 2021** | 418 | 15 | 0 | 2 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Dyddiad | Preswyl wedi meddianu | Preswyl yn wag | Dros dro wedi meddianu | Dros dro yn wag |
|---|---|---|---|---|
| **Gorffennaf 2021** | 397 | 10 | 0 | 2 |
| **Ionawr 2022** | 399 | 8 | 0 | 2 |
| **Gorffennaf 2022** | 394 | 13 | 0 | 2 |
| **Ionawr 2023** | 394 | 13 | 0 | 2 |
| **Gorffennaf 2023** | 395 | 13 | 0 | 2 |

## Ffynonellau: Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr, Cyfrif Carafannau Cymru Gyfan (Llywodraeth Cymru)

[Nodyn 1]  Fe'u gelwir hefyd yn Safleoedd Rhent Cymdeithasol. Maent yn cynnwys safleoedd sy'n eiddo i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Nid yw'n cynnwys safleoedd preifat awdurdodedig.

[Nodyn 2] Oherwydd pandemig y Coronafeirws, ni chynhaliwyd cyfrifiad carafannau chwemisol Llywodraeth Cymru yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2020.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

[Nodyn 3] O fis Ionawr 2021 ymlaen, defnyddiwyd data ar-lein Cyfrif Carafannau Cymru Gyfan i gynhyrchu cyfrif o garafannau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. O'r herwydd, dylid cymryd gofal wrth fynd ati i ystyried tueddiadau dros amser. Gweler yr adroddiad Ansawdd Data am ragor o wybodaeth.

Defnyddir rhywfaint o law-fer yn y tabl hwn, [x] = Ddim ar gael.

## Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl am ansawdd data a methodoleg yn yr **adroddiad ansawdd Cyfrif carafanau Sipsiwn a Theithwyr**.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Andy O’Rourke
Email: **ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 98/2022

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.